# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion (EOC(3)-03-08)

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 28 Chwefror 2008**
**Amser y cyfarfod: 11.15 - 13.20**

**Lleoliad y cyfarfod: Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam,**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

**Eraill yn bresennol**

Prif Uwcharolygydd Phil Thomson, Heddlu Gogledd Cymru
Rebeccah Lowry, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gill Grainger, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Fiona Mocko, Cyngor Sir Fflint
Trevor Jones, Cyngor Sir Fflint

Y Tad Adrian Wilcock, Esgobaeth Wrecsam

Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Angela Burns, Helen Mary Jones, Huw Lewis a Joyce Watson.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Weithwyr Mudol
### Papur: EOC(3)-03-08(p.1) EOC(3)-03-08(p.2)

2.1 Gwrandawodd yr Aelodau ar gyflwyniadau gan Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Fflint ac Esgobaeth Wrecsam. Atebodd y panel gwestiynau'r Aelodau.

**Gweithredu:**

Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam a Chyngor Sir Fflint gysylltu â'u Hadrannau Tai ynghylch yr arferion gorau a weithredir gan awdurdod lleol yn Ne Cymru ynglŷn â chael un pwynt mynediad sy'n cynnwys pob un o'r tri sector (preifat, cyhoeddus a gwirfoddol) ar gyfer tenantiaid neu bobl sy'n chwilio am lety. Cytunasant hefyd i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda'r canlyniadau.